# Pennod 4: Agweddau tuag at arddangos sgoriau'r CSHB

Mae busnesau bwyd yn cael sticer sy'n dangos eu sgôr hylendid bwyd. Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae'n rhaid i fusnesau bwyd arddangos eu sgôr yn ôl y gyfraith  ond, yn Lloegr, caiff busnesau eu hannog i arddangos eu sgôr (footnote 1).

## Barn am y gofyniad i arddangos sgoriau ar sail orfodol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedden nhw'n meddwl y dylai fod yn ofyniad cyfreithiol i fusnesau arddangos eu sgoriau hylendid bwyd ar eu safleoedd, neu a ddylai busnesau fod yn rhydd i benderfynu a ydyn nhw am wneud hynny ai peidio. O blith yr ymatebwyr a oedd wedi clywed am y CSHB, roedd 93% yn meddwl y dylai fod yn ofyniad cyfreithiol i fusnesau arddangos eu sgoriau hylendid bwyd ar eu safleoedd, ac roedd 4% yn meddwl y dylai busnesau fod yn rhydd i benderfynu a ydyn nhw am wneud hynny ai peidio. Nid oedd 3% o'r ymatebwyr yn gwybod a ddylai hyn fod yn ofyniad cyfreithiol neu a ddylai busnesau fod yn rhydd i benderfynu. Roedd y canfyddiad hwn yn debyg ar draws y tair gwlad; roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yng Nghymru (94%), Lloegr (93%) a Gogledd Iwerddon (94%) yn meddwl y dylai fod yn ofyniad cyfreithiol i fusnesau arddangos eu sgoriau hylendid bwyd ar eu safleoedd** (footnote 2).


Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oedden nhw'n meddwl y dylai busnesau sy'n cynnig gwasanaeth archebu bwyd ar-lein arddangos eu sgôr hylendid bwyd mewn man amlwg er mwyn i gwsmeriaid ei gweld cyn archebu bwyd. O blith yr ymatebwyr a oedd wedi clywed am y CSHB, roedd 94% yn meddwl y dylai busnesau sy'n cynnig gwasanaeth archebu bwyd ar-lein arddangos eu sgôr hylendid bwyd mewn man amlwg er mwyn i gwsmeriaid ei gweld cyn archebu bwyd, roedd 1% yn meddwl na ddylai hynny fod yn orfodol, a dywedodd 5% nad oedden nhw'n gwybod. Roedd y canfyddiad hwn yn debyg ar draws Cymru (95%), Lloegr (94%) a Gogledd Iwerddon (94%)** (footnote 3).

## Barn am y man lle y dylid arddangos sgoriau hylendid bwyd

## Ffigur 19. Lleoliadau lle mae'r ymatebwyr yn meddwl y dylid arddangos sgoriau hylendid bwyd

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Lleoliad | Canran yr ymatebwyr (%) |
|---|---|
| Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol busnes bwyd | 81 |
| Gwefan archfarchnad | 84 |
| Gwefannau/apiau cwmnïau archebu/dosbarthu bwyd | 91 |
| Gwefan siop tecawê | 93 |
| Gwefan caffi neu fwyty | 94 |
| Gwefan gwesty neu lety gwely a brecwast | 94 |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

Gofynnwyd i’r ymatebwyr ymhle y dylid arddangos sgoriau hylendid bwyd, gan ddewis o blith rhestr o leoliadau. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn meddwl y dylid arddangos sgoriau hylendid bwyd ar wefannau bwytai neu gaffis (94%), ar wefannau gwestai neu letai gwely a brecwast (94%), ar wefannau siopau tecawê (93%), ac ar wefannau neu apiau cwmnïau archebu a dosbarthu bwyd (91%). Roedd tua 8 o bob 10 o ymatebwyr o’r farn y dylid arddangos sgoriau hylendid bwyd ar wefannau archfarchnadoedd (84%) ac ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol busnesau bwyd (81%) (Ffigur 19) (footnote 4).

1. Cyflwynwyd deddfwriaeth i’w gwneud yn orfodol arddangos sgoriau’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd mewn safleoedd yng Nghymru ym mis Tachwedd 2013 ac yng Ngogledd Iwerddon ym mis Hydref 2016.

2. Cwestiwn: Ydych chi’n meddwl y dylai fod yn ofyniad cyfreithiol i fusnesau arddangos eu sgôr hylendid bwyd ar eu safleoedd, neu a ddylai busnesau fod yn rhydd i benderfynu a ydyn nhw am wneud hynny ai peidio? Ymatebion: Dylai fod yn rhaid iddyn nhw ei harddangos; Dylai busnesau fod yn rhydd i benderfynu; Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4414,

yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur 'Bwyta Allan' trwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, ac eithrio'r rheiny a oedd 'heb nodi'.

3. Cwestiwn: Ydych chi'n meddwl y dylai busnesau sy'n cynnig gwasanaeth archebu bwyd ar-lein arddangos eu sgôr hylendid bwyd mewn man amlwg er mwyn i gwsmeriaid ei gweld cyn archebu bwyd? Ymatebion: Ydw; Nac ydw; Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4415, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur 'Bwyta Allan' trwy'r post a oedd wedi clywed am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, ac eithrio'r rheiny a oedd 'heb nodi'

4. Cwestiwn: Ydych chi'n meddwl y dylid arddangos y sgoriau hylendid… Ar apiau a gwefannau cwmnïau archebu a dosbarthu bwyd sy'n caniatáu i chi archebu bwyd o fwytai a siopau tecawê lleol amrywiol? / Ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol busnes bwyd? / Ar wefan bwyty neu gaffi? / Ar wefan siop tecawê? / Ar wefan gwesty neu lety gwely a brecwast? / Ar wefan archfarchnad? Sylfaen = 4918, pawb a ymatebodd ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur 'Bwyta Allan' drwy'r post.